**Y Gwir Anrh/Rt Hon Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd/Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 Mehefin 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau i'w cael ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Er mwyn atal lledaeniad haint neu halogiad yn sgil y coronafeirws neu glefyd y coronafeirws, mae'r Rheoliadau yn gosod gofynion ar deithwyr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin (hy yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon).

Mae'r Rheoliadau yn gosod dyletswydd ar deithwyr perthnasol i (i) darparu gwybodaeth ragnodedig, gan gynnwys manylion cyswllt a manylion teithio; a (ii) ynysu am gyfnod o 14 diwrnod.

Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 8 Mehefin 2020. Oherwydd amgylchiadau'r clefyd hwn, ystyrir bod modd cyfiawnhau lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn, a bod hynny'n angenrheidiol. Mae Rheoliadau cyfwerth yn cael eu cyflwyno o fewn yr un amserlen ac yn gosod yr un gofynion mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn rhan o ddull o weithredu sy'n cynnwys y pedair gwlad i osgoi lledaenu haint neu halogiad yn sgil y coronafeirws neu glefyd y coronafeirws yn y DU drwy unrhyw heintiau sydd wedi'u cludo i'r wlad gan deithwyr.

Bydd yr offeryn hwn yn dod i rym cyn y bydd modd ei osod yn y Senedd. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod modd i'r cyfyngiadau fod mewn grym ar draws y DU ar yr un pryd. Bydd hefyd yn sicrhau eglurder a symylrwydd ar gyfer y cyhoedd. Gan nad yw'r

Swyddfa Gyflwyno ar agor dros y penwythnos bydd y cyfle cyntaf i osod yr offeryn yn dilyn ei gofrestru yn digwydd ar ôl iddo ddod i rym.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill yn ystod y broses o ddatblygu a chyflwyno'r Rheoliadau hyn.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd